monmouthshire
sir fynwy

My Day
My Life
Contribution
Community
Opportunity

Practice
Solutions

# Y gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd

## Adroddiad gan Practice Solutions




Darl
Read


# Darllen Hawdd



Fersiwn Ddarllen Hawdd yw hon o wybodaeth galed. Gall beidio â chynnwys yr holl wybodaeth ond bydd yn dweud wrthych am y rhannau pwysig.




Mae'r wybodaeth Darllen Hawdd hon yn defnyddio geiriau a lluniau haws. Gall fod angen cymorth arnoch i'w ddarllen o hyd.




Mae rhai geiriau mewn print **trwm** – mae hyn yn golygu bod yr ysgrifen yn fwy trwchus ac yn dywyllach.



Geiriau yw'r rhain y bydd rhai pobl yn eu cael yn anodd. Pan welwch air mewn print trwm, byddwn yn ei esbonio yn y frawddeg nesaf.




Mae geiriau glas ac wedi'u tanlinellu yn dangos dolenni i wefannau a chyfeiriadau e-bost. Gallwch glicio ar y dolenni hyn ar gyfrifiadur.

# Cynnwys

Rhagymadrodd ........................................................4

Sut y gwnaethom ysgrifennu'r adroddiad hwn...............6

Am y Gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd ....................8

Beth ddywedodd pobl ................................................10

Beth rydym wedi'i ganfod..........................................20

Beth ddylai ddigwydd................................................21

Beth sy'n digwydd nesaf? .........................................27

Am ragor o wybodaeth...............................................28

# Rhagymadrodd



Mae Cyngor Sir Fynwy wedi bod yn edrych ar y gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd.



Mae Fy Niwrnod Fy Mywyd yn wasanaeth sy'n rhoi cyfle i bobl ddysgu a gwneud mwy dros eu hunain.




Gofynnodd y Cyngor i gwmni o'r enw Practice Solutions Limited siarad â phobl am Fy Niwrnod Fy Mywyd, ac wedyn ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio:




- Sut y gwnaethom ysgrifennu'r addrodiad hwn.



- Rhagor am y gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd.

Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn esbonio:




- Beth ddywedodd pobl am y gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd.




- Beth ddylai ddigwydd nesaf.

# Sut y gwnaethom ysgrifennu’r adroddiad hwn


Siaradom â:



- Phobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth Fy Mywyd Fy Niwrnod yn awr, a’u teuluoedd




- Pobl oedd weithiau’n arfer defnyddio’r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd pan oedd yn ganolfan dydd.



- Pobl iau a allai ddefnyddio’r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd yn y dyfodol.



- Pobl sy’n gweithio i’r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd.



- Pobl eraill sy’n gwybod am y gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd.

Siaradom â phobl:



- Wyneb yn wyneb.



- Mewn 2 weithdy – roedd y rhain yn gyfarfodydd mawr lle siaradodd llawer o bobl am beth oedd ar eu meddwl.



- Mewn cyfarfodydd ar-lein ar gyfrifiadur.




- Trwy ofyn iddynt gwblhau arolwg.

# Am y Gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd



Yn 2014 sefydlodd Cyngor Sir Fynwy y Gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd.

Helpodd y gwasanaeth oedolion ddewis gweithgareddau gwahanol a newydd i gymryd rhan ynddynt.



Digwyddodd mwy o’r gweithgareddau yn yr ardal leol, yn hytrach nac yn y ganolfan ddydd yn unig fel roeddent yn arfer gwneud.




Sefydlodd y Cyngor gaffi a siop argraffu newydd hefyd lle gallai oedolion weithio.



Erbyn 2020 teimlai rhagor o bobl yn hyderus am gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ardal leol, yn hytrach na mynd i’r ganolfan ddydd yn unig.

# Covid





Pan ddechreuodd ragor o bobl fynd yn sal â Covid, roedd rhaid i bob adeilad gau. Roedd rhaid i bobl aros gartref.



Ar ôl Covid ni ddechreuodd yr holl weithgareddau mewn ardaloedd lleol eto.



Arhosodd adeiladau'r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd ar gau.



Mae llai o bobl yn awr yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd.




Peidiodd rhai pobl â chymryd rhan yn Fy Niwrnod Fy Mywyd ac maen nhw'n cael eu cynorthwyo yn awr trwy eu cartrefi byw â chymorth.

# Beth ddywedodd pobl

## Pobl sydd wedi defnyddio’r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd

Dywedodd pobl sydd wedi defnyddio’r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd yn y gorffennol:




- Roedd yn lle diogel i fod.



- Roeddent yn mwynhau gwneud llawer o weithgareddau, fel celf a drymio.



- Roeddent yn mwynhau bod o gwmpas pobl eraill a gallu sgwrsio â’u ffrindiau.





- Hoffent i’r gwasanaeth barhau â hyd yn oed rhagor o weithgareddau a dyddiau allan.

# Pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd yn awr

Dywedodd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd yn awr:



- Maen nhw'n hoffi llawer o'r gweithgareddau, fel rhedeg y siop argraffu a gweithio yn y caffi.




- Maen nhw'n teimlo'n drist fod llawer o'r adeiladau wedi cau ac nad yw llawer o'r gweithgareddau'n rhedeg.



- Maen nhw'n teimlo'n drist nad ydynt yn gallu gweld rhai o'u ffrindiau gan nad ydynt yn cymryd rhan yn y gwasanaeth mwyach.



- Mae problemau â rheolaeth a'r gost i gymryd rhan mewn gweithgareddau.

# Pobl a allai fynd at Fy Niwrnod Fy Mywyd yn y dyfodol



Fe wnaethom ofyn i bobl beth fyddai'n eu cymell i fod eisiau cymryd rhan yn y gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd yn y dyfodol. Dywedon nhw:



- Gweithgareddau grŵp yn ogystal â gweithgareddau 1 i 1.



- Cludiant i weithgareddau.



- Llawer o weithgareddau gwahanol a dyddiau allan, y tu mewn a'r tu allan i adeiladau.



- Gwybodaeth sy'n dweud wrth bobl beth yw'r gwasanaeth a pha weithgareddau sydd.

Fe wnaethom ganfod hefyd:



- Y teimlai pobl y dylai’r Cyngor gynnwys pobl sy’n defnyddio’r gwasanaeth yng nghynllunio’r gweithgareddau.




- Bod gan bobl ifanc ddiddordeb mewn gweithgareddau awyr agored a gweithgareddau fydd yn eu helpu i ddysgu sgiliau newydd.

# Teuluoedd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd

Dywedodd teuluoedd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd:



- Nid yw ychydig oriau o weithgareddau yr wythnos i bob unigolyn yn ddigon.




- Ers Covid, nid yw'r gwasanaeth wedi bod cystal ag yr oedd o'r blaen.



- Maen nhw'n pryderu am sut maen nhw'n mynd i dalu am weithgareddau.




- Ers Covid, nid ydynt wedi bod yn cael cymaint o gymorth gan y Cyngor.

Dywedodd teuluoedd hefyd:



- Dylai fod cymysgedd o weithgareddau sydd mewn grŵp ac 1 i 1.




- Dylai adeiladau gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd fod yn hygyrch i bawb.

# Pobl sy'n gweithio i'r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd

Dywedodd pobl sy'n gweithio i'r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd:



- Eu bod wedi mwynhau gweithio gyda phobl oedd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth.




- Y teimlent yn dda am newidiadau i'r gwasanaeth.



- Eu bod wedi mwynhau rhedeg gweithgareddau i bobl.



- Ers Covid, nid oes llawer o gyfarfodydd staff wedi bod.


Dywedodd
staff hefyd:



- Weithiau nid oes digon o amser yn cael ei roi iddynt i gynllunio gweithgareddau.




- Maen nhw ychydig yn bryderus am golli eu swydd, gan fod llai o bobl yn cymryd rhan yn y gwasanaeth.





- Dylai fod ffordd o gofnodi anghenion a hoffterau pob unigolyn sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth.



- Hoffent ragor o gymorth â chanfod gweithgareddau lleol.

# Pobl eraill sy’n gwybod am y gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd


Dywedodd staff sy’n gweithio yn y Cyngor:




- Ers Covid, nid yw’r gwasanaeth cystal ag yr oedd o’r blaen.



- Mae rhai gweithgareddau yn anodd i’w rhedeg pan mae’n 1 i 1.




- Bydd rhai pobl yn dweud ie i unrhyw weithgaredd, hyd yn oed os nad oes ganddynt ddiddordeb ynddo, os nad ofynnir iddynt beth yr hoffent ei wneud.




- Dylai staff sy’n gweithio i’r gwasanaeth gael cynnig rhagor o hyfforddiant a chymorth.




- Dylai staff sy’n gweithio i’r gwasanaeth gofnodi’r amser maen nhw’n ei dreulio â phobl sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau.



Teimlai staff yn y Cyngor hefyd y dylai pawb gymryd rhan mewn cynllunio’r gwasanaeth, gan gynnwys pobl sy’n cymryd rhan yn y gweithgareddau.

Dywedodd staff sy’n gweithio mewn sefydliadau eraill yn yr ardal leol:




- Ers Covid, nid yw’r gwasanaeth wedi bod cystal ag yr oedd o’r blaen.




- Hoffent barhau i weithio gyda’r gwasanaeth yn y dyfodol.

# Beth rydym wedi'i ganfod

Ar ôl gwrando ar yr hyn oedd gan bawb i'w ddweud, rydym wedi canfod bod:




- Fy Niwrnod Fy Mywyd yn arfer bod yn wasanaeth da iawn.




- Gwnaeth y gwasanaeth lawer o bethau da yn yr ychydig flynyddoedd cyntaf.



- Ar ôl Covid nid yw'r gwasanaeth wedi bod cystal ag yr oedd o'r blaen, ac mae llai o bobl yn cymryd rhan.



- Rydym oll yn delio â llawer o heriau newydd, fel cost popeth yn codi.




- Mae'r Cyngor yn gallu gwneud y gwasanaeth yn dda ar gyfer y dyfodol trwy wneud newidiadau rydym wedi eu hawgrymu.

# Beth ddylai ddigwydd

## Gweithio i ddod â rhannau cadarnhaol y gwasanaeth ôl o'r blaen



Dylai'r gwasanaeth:

- Gynorthwyo pobl i wneud gweithgareddau yn yr ardal leol.




- Cynnwys pobl sy'n cymryd rhan trwy ofyn iddynt pa weithgareddau yr hoffent eu gwneud.

## Cael cyd-drefnydd gweithgareddau newydd




Dylai'r Cyngor sefydlu swydd newydd o'r enw cyd-drefnydd gweithgareddau.

Dylai'r unigolyn hwn fod yn gyfrifol am sefydlu gweithgareddau yn yr ardal leol i bobl.



Byddent hefyd yn helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu hardal leol.

## Oriau hirach



Dylai'r gwasanaeth fod yn agored am oriau hirach ac ar benwythnosau.

## Cynorthwyo staff



Dylai'r Cyngor sicrhau bod staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo. Byddai hyn yn cynnwys:



- Cyfarfodydd tîm rheolaidd.




- Gwirio bod y staff yn gweithio'n dda.




- Hyfforddi'r staff er mwyn iddynt wneud eu swyddi'n well.

# Cadw cofnodion




Dylai fod ffordd o gofnodi beth sy'n digwydd mewn gweithgareddau.

Mae hyn yn golygu:



- Dylai'r holl staff gael mynediad at, a gwybod sut i ddefnyddio cyfrifiadur.



- Dylai fod cofnod o bopeth sy'n digwydd.



- Dylai fod cofnod sy'n esbonio beth sydd ei angen ar bob unigolyn sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth.




- Dylai staff allu gweld cynllun gofal pob unigolyn – mae hyn yn esbonio pa ofal a chymorth sydd eu hangen ar bobl.




Dylai fod cyfarfodydd rheolaidd hefyd â theuluoedd a gofalwyr i siarad am sut mae'r gwasanaeth yn gweithio.

## Adeiliadau diogel hygyrch




Mae angen i bobl fod mewn adeiladau diogel a **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn golygu ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn addas i bobl ag anghenion gwahanol.



Dylai'r Cyngor sicrhau bod rhagor o adeiladau lleol sy'n hygyrch i bobl anabl.

## Gweithio gyda phobl a theuluoedd



Dylai'r Cyngor weithio gyda phobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a'u teuluoedd, i gynllunio a rhedeg y gwasanaeth.

# Edrych ar bob gwasanaeth anabledd dysgu



Dylai'r Cyngor edrych ar yr holl wasanaethau anabledd dysgu maen nhw'n eu cynnig.

Dylent feddwl am:




- A ddylai'r gwasanaeth Fy Niwrnod Fy Mywyd ddod yn rhan o wasanaethau eraill.



- Sut mae cymorth yn cael ei roi i bobl o oedrannau gwahanol.



- Sut mae pobl yn gallu cael mathau gwahanol o gymorth.

## Map o’r holl wasanaethau yn Sir Fynwy



Nid oedd y rhan fwyaf o bobl yn gwybod am y gwasanaethau y gallent eu cael.



Dylai’r Cyngor roi rhagor o wybodaeth i bobl am y gwasanaethau y gallent eu cael.



Byddai’n wych i gael map sy’n dangos yr holl wasanaethau gwahanol y gallwch eu cael yn Sir Fynwy.

# Beth sy’n digwydd nesaf?




Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu â Chyngor Sir Fynwy.

Byddant yn edrych arno ac yn penderfynu beth i’w wneud nesaf.

# Am ragor o wybodaeth




Gallwch edrych ar wefan y Cyngor yma:
www.monmouthshire.gov.uk

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch a'r Cyngor trwy:



- Post:
  Cyngor Sir Fynwy
  Neuadd y Sir
  Y Rhadyr Brynbuga
  NP15 1GA



- Ffôn: 01633 644644



- E-bost:
  contact@monmouthshire.gov.uk

Mae'r wybodaeth darllen hawdd hon wedi cael ei chynhyrchu gan easy-read-online.co.uk